This item is also available in English / Mae’r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cyngor Sir Penfro

Pembrokeshire County Council

# Addysg

---

# Cynnig ar gyfer diddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a sefydlu’r un ysgol fel ysgol gymunedol 3-11

## Dogfen Ymgynghori

## Rhagfyr 2025

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Adran 1 – Cyflwyniad** | **4** |
| **Adran 2 – Ymgynghoriad** | **5** |
| **Adran 3 – Y *status quo* – cefndir** | **8** |
| **Adran 4 – Safonau ysgol cyfredol** | **14** |
| **Adran 5 – Y cynnig** | **17** |
| **Adran 6 – Dewisiadau amgen a ystyriwyd** | **24** |
| **Adran 7 – Y broses statudol** | **26** |
| **Adran 8 – Cwestiynau cyffredin** | **28** |
| **Atodiadau** | |
| **1 – Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt** | **31** |
| **2 – Asesiad effaith ar y gymuned a nodau llesiant** | **32** |
| **3 – Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** | **38** |
| **4 – Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg** | **39** |
| **5 – Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynnig trefniadaeth ysgolion** | **42** |
| **Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad** | **52** |

# Rhagair

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am ddarparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae cael yr ysgolion cywir o'r math cywir yn y lleoedd cywir a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer ein dysgwyr yn yr 21ain ganrif yn her sy'n ein hwynebu ni, a phob cyngor ledled Cymru.

Mae mynd i'r afael â'r her hon yn cynnwys adolygu nifer a mathau'r ysgolion sydd gan y cyngor yn ei ardal, ac asesu a yw'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'i adnoddau a'i gyfleusterau ai peidio.

Mae'r cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- Ansawdd a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol yn y dyfodol
- Digonolrwydd a hygyrchedd lleoedd ysgol
- Cyflwr, addasrwydd a safon adeiladau ysgolion
- Gwerth am arian

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r cynnig i ddiddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran, a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3-11. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich barn.

**Steven Richards-Downes**
**Cyfarwyddwr Addysg**

# 1. Cyflwyniad

Mae gan Gyngor Sir Penfro ddyletswydd statudol i sicrhau digon o leoedd ysgol addas yn ei ardal ac i benderfynu a ydyw'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025, ystyriodd Cyngor Sir Penfro adroddiad y Gweithgor Moderneiddio Ysgolion a oedd yn amlinellu canfyddiadau adolygiad o ddarpariaeth addysg yn ardal Preseli. Yn benodol, roedd yr adolygiad yn ystyried faint o leoedd gwag sydd mewn ysgolion yn yr ardal, o ystyried y gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion.

Amlinellodd yr adroddiad y sefyllfa bresennol mewn perthynas ag Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, a thynnodd sylw at ei statws fel ysgol 'wledig', yng nghyd-destun y *'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig*' o fewn Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Penderfyniad y cyngor ar 8 Mai 2025 oedd:

Bod y Cyfarwyddwr Addysg yn cael ei awdurdodi i ddechrau ymgynghoriad statudol ag Esgobaeth Tyddewi ar y cynnig i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran, a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3-11.

Yn dilyn ymgynghori ag Esgobaeth Tyddewi ar y mater uchod, derbyniodd y cyngor adroddiad ar 17 Gorffennaf 2025, a oedd yn cynnwys yr ymateb llawn gan yr esgobaeth, ac fe'i hystyriwyd.

Roedd penderfyniad y cyngor fel a ganlyn:

> Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Addysg i gynnal ymgynghoriad cyffredinol i ddiddymu Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran, a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3-11 oed.

Mae'r ddogfen hon yn cyflawni rhan o gyfrifoldeb y cyngor sir o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ymgynghori â rhanddeiliaid priodol ac i egluro cynnig y cyngor i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran) a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3-11. Mae'r ddogfen hon yn cynnig cyfle i ymgyngoreion gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau neu gynigion amgen y maent yn dymuno iddynt gael eu hystyried, yn ogystal ag egluro pam nad yw'r opsiynau eraill a ystyriwyd yn opsiwn a ffefrir.

Bydd y broses ymgynghori ar y cynnig hwn yn cydymffurfio â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. O ganlyniad, prif ddiben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu barn rhanddeiliaid a nodwyd. I gael rhagor o wybodaeth am y broses statudol, gweler Adran 7.

# 2. Ymgynghoriad

## 2.1 Gyda phwy y byddwn ni'n ymgynghori?

| | |
|---|---|
| **Rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, staff a chorff llywodraethu'r ysgol yr effeithir arnynt gan y cynnig:** | |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | |
| **Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried eu bod yn debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion:** | |
| Ni ragwelir y bydd unrhyw ysgolion eraill yn cael eu heffeithio gan y cynigion hyn. | |
| **Aelodau etholedig:** | |
| • Paul Davies AS – Etholaeth<br>• Cefin Campbell AS – Rhanbarthol<br>• Joyce Watson AS – Rhanbarthol<br>• Eluned Morgan AS – Rhanbarthol<br>• Jane Dodds AS – Rhanbarthol<br>• Ben Lake Aelod Seneddol (Ceredigion Preseli) | • Y Cynghorydd John Davies |
| **Cynghorau tref (T) a chymuned (CC) perthnasol:** | |
| CC Cilgerran | |
| **Undebau llafur:** | |
| NEU, NASUWT, UCAC, NAHT, ASCLE, UNSAIN, UNITE, GMB | |
| **Awdurdod esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig:** | |
| Tyddewi | Archesgobaeth Caerdydd-Mynyw |
| **Awdurdodau lleol:** | |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Cyngor Sir Ceredigion |
| • Gweinidogion Cymru<br>• Estyn<br>• Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys | • Comisiynydd y Gymraeg<br>• Partneriaeth – Consortiwm Addysg Rhanbarthol<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Darparwyr blynyddoedd cynnar / gofal plant annibynnol/gwirfoddol | **Lleoliadau cylch chwarae:**<br>Cylch Meithrin Hermon<br>Cylch Meithrin Bwlch-y-groes<br>Cylch Meithrin Crymych<br>Meithrinfa Playdays<br><br>**Gwarchodwyr plant:**<br>MG – Blaen-ffos<br>LP – Boncath<br>SD – Cilgerran<br>FB – Cilgerran |

## 2.2 Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Bydd y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn gallu cymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy eu cyngor ysgol. Bydd yr wybodaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a'u lefel ddealltwriaeth debygol a bydd yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Bydd yr wybodaeth a gesglir o'r ymgynghoriad â disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei ystyried wedi hynny gan y cyngor.

## 2.3 Pryd mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ac yn gorffen?

**BYDD Y CYFNOD YMGYNGHORI AR GYFER Y CYNNIG HWN YN DECHRAU AR DDYDD MAWRTH, 16 RHAGFYR 2025, AC YN GORFFEN AR DDYDD GWENER, 30 IONAWR 2026.**

Yn ystod y cyfnod hwn, gallwch fynegi eich barn drwy ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Addysg gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

| | |
|---|---|
| Llythyr at: | Steven Richards-Downes<br>Cyfarwyddwr Addysg<br>Neuadd y Sir<br>Hwlffordd<br>SA61 1TP |
| Cyfeiriad e-bost: | EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk |
| Ffurflen ymateb: | Gweler y ffurflen ar gefn y ddogfen hon |
| Ar-lein: | https://www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud/ymgynghoriadau |

Gallwch gyflwyno eich barn o blaid neu yn erbyn y cynnig. Ni fydd ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Os ydych chi am wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol a amlinellir yn Adran 7.

**NODER Y DYLAI POB GOHEBIAETH GAEL EI DERBYN ERBYN 5PM AR DDYDD GWENER, 30 IONAWR 2026.**

## 2.4 Beth fydd yn digwydd ar ôl y broses ymgynghori?

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd yr adborth yn cael ei gasglu a'i gynnwys mewn adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno wedyn i'r cyngor sir. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'w weld ar wefan y cyngor a gellir cael copïau caled ar gais yn EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk neu drwy ffonio 01437 775164. Bydd y cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu a ydyw'n dymuno bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os bydd y cyngor yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig hwn. Fodd bynnag, os bydd y cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi. Cyhoeddir yr hysbysiad statudol ar wefan y cyngor a'i bostio yn yr ysgolion a enwir a mannau amlwg eraill yn y gymuned. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion perthnasol i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr ac aelodau staff.

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, bydd cyfle gan unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r cynnig i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, bydd angen gwneud gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon at y cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol.

Os derbynnir gwrthwynebiadau, bydd y rhain yn cael eu crynhoi mewn adroddiad gwrthwynebiadau, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor gyda rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau staff yr ysgolion perthnasol yn cael gwybod ei fod ar gael. Bydd pob ymgynghorai a restrir yn gynharach yn yr adran hon yn derbyn copïau caled o'r adroddiad neu'n cael dolen i'r lleoliad perthnasol ar y wefan drwy e-bost.

Bydd yr adroddiad gwrthwynebiadau yn cael ei ystyried wedi hynny gan y cyngor cyn penderfynu a ddylai'r cynnig fynd rhagddo ai peidio. Pan wneir penderfyniad, caiff ei gyhoeddi ar wefan y cyngor a rhoddir gwybod i bob ymgynghorai.

## 2.5 Eich cwestiynau

Mae cynnwys y ddogfen hon yn debygol o ddarparu atebion i'r cwestiynau mwyaf cyffredin a fydd yn codi ynghylch y cynnig.Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad e-bost canlynol: EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk

# 3. Y *status quo* – cefndir

## 3.1 Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran

Ysgol gynradd wirfoddol a reolir i blant 3-11 oed yw Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, wedi'i lleoli yng Nghilgerran, ac fe'i cynhelir gan Gyngor Sir Penfro. Mae'r ysgol yn denu ei disgyblion o ardal wledig fawr yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro, i'r de/de-ddwyrain o Aberteifi, ac o ardaloedd o fewn ardaloedd cyfagos cynghorau sir Caerfyrddin a Cheredigion. Mae dalgylch yr ysgol yn gyffredinol yn gwasanaethu wardiau Cilgerran a Maenordeifi, ond mae hefyd yn ymestyn ychydig i wardiau Boncath ac Eglwyswrw. Dangosir dalgylch yr ysgol yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Dyma broffil oedran y disgyblion ar y gofrestr ar 1 Rhagfyr 2025, ar gyfer pob dosbarth, a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad ysgol blynyddol blaenorol ar gyfer yr ysgol:

| | **Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dosbarth meithrin | | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | NAG[1] |
| | Rhan-amser | Amser llawn | | | | | | | | |
| Castell | | | | 14 | 7 | | | | | 21 |
| Cwrwgl | | | | | | 16 | 16 | | | 32 |
| Dolbadau | | | | | | | | 13 | 20 | 33 |
| Pysgod Chwim | 9 | | 10 | | | | | | | 19 |
| Rhagfyr 25 | 9 | | 10 | 14 | 7 | 16 | 16 | 13 | 20 | **105** |
| Ionawr 25 | 3 | 11 | 16 | 7 | 15 | 16 | 12 | 17 | 17 | **114** |
| Ionawr 24 | 15 | 6 | 10 | 14 | 16 | 13 | 17 | 15 | 12 | **118** |
| Ionawr 23 | 10 | 4 | 14 | 18 | 15 | 20 | 13 | 13 | 17 | **124** |
| Ionawr 22 | 18 | | 17 | 13 | 19 | 11 | 13 | 15 | 18 | **124** |

[1] Nifer ar y gofrestr

### 3.2 Manylion yr ysgolion sy'n destun y cynnig

| Ysgol | Categori | Categori iaith | Ystod oedran | Capasiti'r ysgol 2025 | Nifer derbyn 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, Cilgerran, Sir Benfro, SA43 2SB | Gwirfoddol a reolir | Cat. 3 cyfrwng Cymraeg | 3-11 | 133 | 19 |

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y tabl isod wedi'i thynnu o Fy Ysgol Leol ac mae'n darparu data cymharol rhwng yr ysgol, yr awdurdod lleol a Chymru.

| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | Cymru | Awdurdod lleol | Ysgol |
|---|---|---|---|
| | 2025 | | |
| **Prydau ysgol am ddim – cyfartaledd 3 blynedd (grŵp prydau ysgol am ddim)** | 21.7% | 17.9% | 7.9% |
| **Presenoldeb 2024**<br>Canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd gan ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn ystod y flwyddyn academaidd | 92.2% | 92% | 93.8% |
| **% y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt** | 7.4% | 2.8% | Dim |
| **% y disgyblion yn yr ysgol a gofnodwyd fel rhai â chefndir ethnig heblaw am "Gwyn Prydeinig"** | 16% | 9.2% | Dim |
| Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 a'r rheoliadau i rym ar 1 Medi 2021 er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc 0-25 oed gael mynediad at gymorth ychwanegol i ddiwallu eu hanghenion sydd wedi'i gynllunio a'i ddiogelu'n briodol. Mae gweithredu'r system ADY yn parhau, gyda phlant yn symud o'r system AAA i'r system ADY tan fis Awst 2025. Bydd anghenion dysgwyr ag ADY yn cael eu nodi mewn Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau), sy'n gynlluniau statudol. | | | |
| **% y disgyblion yng nghategori Gweithredu gan yr Ysgol**<br>Pan fydd athro/athrawes yn nodi bod gan ddisgybl AAA, maent yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. | 1.3% | 4.6% | 13.1% |
| **% y disgyblion yng nghategori Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy**<br>Pan roddir cyngor neu gymorth i athro gan arbenigwyr allanol, fel y gellir rhoi ymyriadau amgen ar waith, yn ychwanegol at neu'n wahanol i'r rhai a | 1.0% | 3.1% | 10.7% |


| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | Cymru | Awdurdod lleol | Ysgol |
|---|---|---|---|
| | 2025 | | |
| ddarperir ar gyfer y disgybl drwy Weithredu gan yr Ysgol. | | | |
| **% y disgyblion â datganiadau**<br>Mae gan blentyn AAA os oes ganddo anawsterau dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer. Mae anhawster dysgu yn golygu bod gan y plentyn anhawster dysgu llawer mwy na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran neu fod gan y plentyn anabledd sydd angen cyfleusterau gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant fel arfer. | 0.4% | 0.1% | Dim |
| **Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)**<br>Cynlluniau statudol yw'r rhain a grëwyd o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a ddaeth i rym ar 1 Medi 2021. Gall dysgwr gael naill ai CDU a gynhelir gan ysgol neu CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. | 1.4% | 3.4% | Dim |

# SCHOOL CATCHMENT AREA PLAN / CYNLLUN TALGYLCH YSGOL

**(from September 2009 / o Medi 2009)**

**School Name / Enw'r Ysgol:** Cilgerran CP

**School Number / Rhyf yr Ysgol:** 3035




Based upon the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of HMSO © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Pembrokeshire County Council Licence No. 100023344 (2009)

'Yn seiliedig a'r Ordnance Survey chaniatad Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrrhydi © Hawlfraint y Goron. Y mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achosion sifil.' Cyngor Sir Penfro, Rhif Trwydded 100023344 (2009).

### 3.3 Capasiti'r ysgol

Mesurir capasiti gan ddefnyddio'r fformiwla "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru"; nid yw hyn yn cynnwys adeiladau ar gyfer dosbarthiadau meithrin na disgyblion meithrin. Caiff capasiti ysgolion ei adolygu'n flynyddol a gall newid pan fydd ysgol yn newid y ffordd y mae'n defnyddio ei hadeiladau a phan fydd newidiadau i adeiladau'n digwydd. Er mwyn sefydlu cymhariaeth rhwng capasiti a defnydd, dangosir disgyblion meithrin ar wahân ac maent wedi'u heithrio o ragolygon o'r fath.

| Ysgol | Capasiti 2025 | |
|---|---|---|
| | Disgyblion amser llawn | Disgyblion meithrin (cyfwerth ag amser llawn) |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | 133 | 13 |

### 3.4 Rhagolygon disgyblion

Cynhelir ymarfer i ragweld niferoedd disgyblion yn y dyfodol yn flynyddol ar ôl i Lywodraeth Cymru ddilysu'r cyfrifiad disgyblion ym mis Ionawr bob blwyddyn. Cyfrifir niferoedd disgyblion a ragwelir gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae pob disgybl Blwyddyn 6 yn symud i ddarpariaeth uwchradd
- Mae pob grŵp blwyddyn yn symud ymlaen yn gronolegol
- Disgyblion derbyn yn seiliedig ar un o'r canlynol:
    - Nifer derbyn yr ysgol
    - Disgyblion derbyn yn cael cynnig lleoedd ar y 'dyddiad cynnig' cyffredin
    - Asesiad yr ysgol ei hun yn seiliedig ar wybodaeth leol
    - Cyfartaledd o dderbyniadau i'r dosbarth derbyn dros y pum mlynedd blaenorol

Ar y dyddiad cau (30 Ebrill 2025) ar gyfer derbyniadau meithrin 2026, roedd pedwar cais (tri ar gyfer y dewis cyntaf).

**Niferoedd disgyblion (dosbarth derbyn – Bwyddyn 6)**

| | Gwirioneddol | Rhagolwg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | 100 | 95 | 92 | 94 | 91 | 90 |

**Cyfradd llenwi 2020–2025**

| | Gwirioneddol | Rhagolwg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | 75.2% | 71.4% | 69.2% | 70.7% | 68.4% | 67.7% |

### 3.5 Cynnyrch disgyblion o dai

Mae gwybodaeth mewn perthynas â'r cynnyrch disgyblion posibl o dai newydd yn yr ardal yn seiliedig ar adroddiad monitro blynyddol y cyngor a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y cynnig hwn, nid oes unrhyw ymrwymiadau tai sydd naill ai'n cael eu hadeiladu neu wedi'u nodi fel rhai y gellir eu cyflawni o fewn cyfnod o bum mlynedd.

### 3.6 Adeiladau

Mae'r ysgol wedi cael gradd 'B – Boddhaol' am gyflwr a 'B – Boddhaol/rhesymol' am addasrwydd.

Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi sy'n berchen ar safle'r ysgol, ac mae angen trafodaethau er mwyn ei drosglwyddo i'r cyngor os rhoddir cymeradwyaeth i sicrhau statws ysgol gymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gradd cyflwr 'B' fel cyflwr cadarn sy'n ddiogel yn weithredol ac yn dangos dirywiad bach yn unig. Yn nodweddiadol, bydd y canlynol yn wir am yr adeiladau:

- gwaith cynnal a chadw wedi'i wneud
- dirywiad bach i orffeniadau mewnol/allanol
- nifer fechan o broblemau adeileddol yn amlwg, ac o ran amlen yr adeiladau, gwasanaethau adeiladau neu gydymffurfedd statudol
- effeithiau bach yn debygol ar weithrediad yr adeilad

Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gradd addasrwydd 'B' fel "*Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi'n effeithiol y broses o gyflwyno'r cwricwlwm mewn rhai meysydd*".

### 3.7 Ysgolion a allai gael eu heffeithio gan y cynnig hwn

Ystyrir na fyddai unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal yn cael eu heffeithio gan y cynnig hwn.

### 3.8 Cryfderau a gwendidau'r sefyllfa bresennol

| Ysgol | Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|---|
| **Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran** | • Dim gofyniad am broses statudol ar gyfer trefniadaeth yr ysgol<br>• Yn cadw ysgol wirfoddol a reolir yr Eglwys yng Nghymru yn yr ardal<br>• Yn bodloni dymuniadau rhai aelodau o'r gymuned leol a rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid<br>• Yn bodloni dymuniadau'r esgobaeth | • Nid yw'n galluogi ffederaleiddio yn y dyfodol er mwyn gwella cynaliadwyedd hirdymor |

# 4. Safonau ysgol cyfredol

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Dyma ddyfarniadau diweddaraf Estyn ac adroddiad ymgynghorydd gwella ysgolion yr ysgol sy'n destun y cynnig.

### 4.1 Arolygiad Estyn

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2017; dangosir trosolwg o'r adroddiad arolygu a'r argymhellion isod. Gall ymgynghoreion gael mynediad at yr adroddiad llawn drwy'r ddolen ganlynol: Templed adroddiad arolygu

**Summary**

The headteacher's leadership and clear vision is one of the school's obvious strengths. The effective quality improvement procedures have ensured consistent progress in the school's improvement journey. The school is very true to its agreed aim of walking hand in hand, and working in partnership in order to encourage all pupils and members of staff to reach their full potential. It provides challenging opportunities to ensure that all pupils contribute fully and confidently bilingually to society. Although a minority of pupils have relatively low level Welsh language skills on entry to the school, it ensures that most make sound progress. The pupil's voice and pupils' rights are at the heart of school life, and pupils' standards of wellbeing and attitudes towards learning are very robust.

| Inspection area | Judgement |
|---|---|
| Standards | Good |
| Wellbeing and attitudes to learning | Good |
| Teaching and learning experiences | Good |
| Care, support and guidance | Good |
| Leadership and management | Good |

**Recommendations**

R1 Increase the use of the Welsh language by pupils in informal situations and within the classrooms

R2 Ensure opportunities for pupils in key stage 2 to develop the full range of information and communication technology (ICT) skills

R3 Improve the standard of presentation of a few pupils across the school

## 4.2 Adroddiad yr ymgynghorydd gwella ysgolion

**Mae ymgynghorydd gwella ysgolion yr ysgol wedi darparu ei hasesiad o'r ysgol, fel a ganlyn:**

- Mae disgyblion yn dangos parch, cwrteisi ac ymddygiad da, gan gyfrannu at awyrgylch cadarnhaol yn yr ysgol. Mae staff yr ysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth feithrin yr amgylchedd hwn drwy sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn hapus. Mae'r pwyslais ar lesiant yn amlwg wrth i aelodau staff greu awyrgylch cynhwysol a chefnogol, gan fynd i'r afael nid yn unig ag anghenion academaidd ond hefyd â datblygiad emosiynol a chymdeithasol disgyblion.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos sgiliau llythrennedd pwrpasol ar draws y cwricwlwm trwy amrywiol brofiadau dysgu. Drwy ddarparu cyfleoedd cyson ac amrywiol ar gyfer datblygu llythrennedd, mae'r ysgol yn sicrhau y gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu sgiliau iaith yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu sgiliau llafaredd Cymraeg yn effeithiol ac yn gyson ar draws yr ysgol ac yn ystod gwersi. Mae strategaethau ymarfer iaith rheolaidd wedi arwain at batrymau iaith llafar ac ysgrifenedig datblygedig iawn i lawer o ddisgyblion.
- Mae cyfleoedd i gymhwyso sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn arwain at ddatblygiad cryf yn y maes hwn. Yn ogystal, caiff sgiliau bywyd go iawn eu hyrwyddo trwy weithgareddau fel rheoli siop ffrwythau'r ysgol a thrin rhoddion elusennol, sydd yn ei dro yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso eu sgiliau rhifedd ym mywyd beunyddiol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd a dyfalbarhad wrth ddysgu ac yn ymfalchïo yn eu gwaith, gan arwain at dasgau sydd wedi'u cyflwyno'n dda.
- Mae arddangosfeydd yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws yr ysgol yn cefnogi disgyblion i ddatblygu ystod o sgiliau a chyfleoedd dysgu wrth adlewyrchu'r pedwar diben a gwerthoedd yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn cynnwys aelodau lleol o'r gymuned yn weithredol er mwyn gwella dysgu trwy amrywiaeth o weithgareddau gwerthfawr sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, ac mae hefyd yn gwneud ymdrech i ddatblygu ardaloedd dysgu awyr agored sy'n hyrwyddo cyfleoedd dysgu estynedig ac yn ysgogi chwilfrydedd disgyblion.
- Mae'r rhan fwyaf o staff addysgu wedi gwella eu prosesau marcio ac adborth, gan eu teilwra i oedran a gallu disgyblion, sy'n hyrwyddo dysgu'n effeithiol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithio ar ddatblygu cod gwahaniaethu, er bod angen mwy o amser i'w sefydlu'n gadarn. Er bod llawer o staff yn addysgu'n dda yn gyson, mae angen cymorth a mentora ychwanegol ar rai i ddatblygu eu sgiliau addysgu ymhellach er mwyn sicrhau dysgu ac adborth effeithiol.
- Mae'r pennaeth yn rheoli cyfrifoldebau rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn effeithiol, gan sicrhau cymorth cynhwysol i bob disgybl. Mae'r CADY'n drefnus, gan weithredu systemau trylwyr er mwyn nodi a chefnogi dysgwyr mewn angen a defnyddio ystod eang o strategaethau ac ymyriadau.
- Mae gweledigaeth glir y pennaeth, yn seiliedig ar gydweithio, yn meithrin gwerthoedd sy'n cymell dysgwyr hyderus ac iach, tra bod trefniadau hunanwerthuso effeithiol yn cyfrannu'n gadarn at lunio blaenoriaethau gwella, gan wneud y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen weithredol ar draws yr ysgol.
- Mae'r corff llywodraethu yn darparu cefnogaeth a her effeithiol, gan gynnal gwybodaeth dda am y ddarpariaeth a'r effaith ar lesiant a chynnydd disgyblion.

- Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd dysgu cadarn i staff, gan gysylltu dysgu proffesiynol â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'r clwstwr, a monitro'r effaith ar ddarpariaeth a dulliau addysgu yn rheolaidd.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Dim ond mesur technegol yw'r cynnig i gau'r ysgol, sy'n ofynnol i gael gwared ar ei statws fel ysgol wirfoddol a reolir, gyda'r bwriad o'i hailagor fel ysgol gymunedol. O ganlyniad:

- Ni fydd yn ofynnol i unrhyw ddisgyblion chwilio am ddarpariaeth amgen mewn ysgolion cyfagos. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth ffydd amgen yn yr ardal.
- Cynigir y bydd yr ysgol newydd yn parhau i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Mae'r rhan fwyaf o blant o'r dalgylch yn mynychu eu hysgol leol. Ni ragwelir y bydd hyn yn newid o ganlyniad i weithredu'r cynnig.
- O ystyried y bydd yr ysgol yn aros yn ei lleoliad presennol, ni ragwelir unrhyw newidiadau a fydd yn effeithio ar gymhwystra disgyblion i gael cludiant i'r ysgol, h.y. bydd y rhai sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol a mwy na dwy filltir o'r ysgol yn derbyn cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol.

**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill**

- Yn debyg i'r rhan fwyaf o ysgolion eraill yn ardal Preseli, mae'r ysgol wedi dioddef gostyngiad yn nifer y disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er gyda rhai uchafbwyntiau ac isafbwyntiau. Ni fydd gweithredu'r cynnig hwn yn arwain at leihau'r lleoedd gwag yn yr ardal.
- Mae'r ysgol yn derbyn cyllid sy'n cyfateb i £4,777 fesul disgybl. Y cyllid cyfartalog fesul disgybl ar draws holl ysgolion Sir Benfro yw £5,265. Ni ragwelir unrhyw arbedion o ganlyniad i weithredu'r cynnig.

# 5. Y cynnig

## 5.1 Y cynnig

Dyma gynnig y cyngor:

> ***Cau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3-11 oed***

Diben y cynnig yw rhoi cyfle i wella cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol. Mae recriwtio penaethiaid mewn ysgolion bach yn her sylweddol ac, o ystyried y boblogaeth disgyblion sy'n gostwng ar draws pob ysgol yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro, mae'n synhwyrol ystyried model ffederasiwn fel opsiwn ar gyfer y dyfodol, h.y. wrth i swyddi gwag i benaethiaid godi. Gan mai Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yw'r unig ysgol ffydd sy'n weddill yn yr ardal, ni all hi ymuno â ffederasiwn gydag unrhyw un o'i hysgolion cyfagos. Bydd newid y statws i ysgol gymunedol yn galluogi hyn i ddigwydd.

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen 'cau' Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran a'i hailagor fel ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg 3-11 ar y safle presennol.

Yng nghyd-destun y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, mae Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran wedi'i dynodi'n 'ysgol wledig' ar hyn o bryd.

### 5.1.2 Manteision ac anfanteision y cynnig

| ***Cau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3-11 oed*** | |
|---|---|
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| - Bydd newid statws yr ysgol yn galluogi cyfle ffederaleiddio yn y dyfodol, gan gynyddu ei chynaliadwyedd hirdymor | – Nid yw'n bodloni dymuniadau'r esgobaeth, y byddai'n well ganddi weld un neu fwy o ysgolion cymunedol lleol yn newid eu statws i ysgol wirfoddol a reolir er mwyn galluogi ffederasiwn yn y dyfodol gydag Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, heb golli statws gwirfoddol a reolir<br>– Nid yw'n bodloni dymuniadau rhai aelodau o'r gymuned leol a rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, sy'n dymuno gweld statws yr ysgol yn cael ei gadw fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru<br>– Mae angen proses statudol i gau'r ysgol ac yna ailagor ysgol gymunedol ar yr un safle – angen cymeradwyaeth y cyngor |

### 5.1.3 Effaith y cynnig

| Cau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3-11 oed |
|---|
| **Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau, llesiant ac agweddau at ddysgu** |
| Nid ystyrir y bydd safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau, llesiant ac agweddau at ddysgu yn cael eu heffeithio'n sylweddol o ganlyniad i newid statws.<br><br>Cynhaliwyd arolygiad Estyn diweddaraf yr ysgol ym mis Hydref 2017, ac mae asesiad cyfredol yr ysgol gan ei hymgynghorydd gwella wedi'i amlygu'n gynharach yn y ddogfen hon (gweler 4.1 a 4.2 uchod). |
| **Ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a'r ddarpariaeth o sgiliau** |
| Dim effaith wedi'i rhagweld. |
| **Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu** |
| Dim effaith wedi'i rhagweld. |
| **Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, dysgu proffesiynol, a defnydd o adnoddau** |
| Dim effaith wedi'i rhagweld. |
| **Effaith debygol y cynigion ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn** |
| Dim effaith wedi'i rhagweld. |
| **Y graddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cymeradwy a sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg** |
| Dim effaith wedi'i rhagweld – byddai'r cynnig yn arwain at gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai'r ysgol yn parhau i gefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y cyngor ac ni fyddai'n ehangu nac yn lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. |

### 5.2 Gwybodaeth allweddol am yr ysgol

<table>
<tr><td>Lleoliad</td><td>Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, Cilgerran, Sir Benfro, SA43 2SB</td></tr>
<tr><td>Categori</td><td>Newid o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol</td></tr>
<tr><td>Trefniadau derbyn</td><td>Dim newid. Cyngor Sir Penfro fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol ac felly bydd ei bolisi derbyn a’i feini prawf gordanysgrifio yn berthnasol. Bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn disgyblion o’r ddau ryw ac ni fydd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol yn ôl naill ai dawn na gallu.</td></tr>
<tr><td>Trefniadau llywodraethu</td><td>Fel rhan o’r cynnig i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, a’i sefydlu fel ysgol gymunedol, byddai corff llywodraethu’r ysgol yn dod i ben ar ôl iddi gau, a byddai corff llywodraethu newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer yr ysgol gymunedol (a’i gyfansoddi yn unol â Deddf Addysg 2002). Y gwahaniaeth allweddol yw na fyddai llywodraethwyr sefydledig (yn gyfrifol am gynrychioli’r Eglwys yng Nghymru) ar gorff llywodraethu’r ysgol gymunedol.</td></tr>
<tr><td>Ystod oedran</td><td>Dim newid(3-11)</td></tr>
<tr><td>Capasiti / nifer derbyn</td><td>Dim newid</td></tr>
<tr><td>Nifer y lleoedd dosbarth meithrin</td><td>Dim newid</td></tr>
<tr><td>Categori iaith</td><td>Dim newid(Categori 3 – cyfrwng Cymraeg)</td></tr>
<tr><td>Adeiladau arfaethedig</td><td>Dim newid</td></tr>
<tr><td>Darpariaeth AAA</td><td>Dim newid. Dyma oedd y dadansoddiad o’r ddarpariaeth ADY yn Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran ar adeg CYBLD 2025:
<table>
<tr><th>Cyfnod ADY</th><th>Nifer</th><th>%</th></tr>
<tr><td>Cynllun Datblygu Unigol gan yr ysgol</td><td>4</td><td>3.51%</td></tr>
<tr><td>Cynllun Datblygu Unigol</td><td>1</td><td>0.88%</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td>gan yr<br>awdurdod lleol</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Gweithredu gan yr Ysgol</td><td>13</td><td>11.4%</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy</td><td>10</td><td>8.77%</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Dim darpariaeth</td><td>86</td><td>75.4%</td></tr>
<tr><td>Cludiant i'r ysgol</td><td colspan="4">Bydd trefniadau cludiant yn unol â'r gyfraith a pholisi'r cyngor.<br><br>Bydd cludiant am ddim yn parhau i gael ei ddarparu yn unol â'r canllawiau gweithredol ar gyfer y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a pholisi cludiant i'r ysgol Cyngor Sir Penfro. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n byw yn Sir Benfro neu a ystyrir yn gyfrifoldeb Cyngor Sir Penfro. Bydd y cyngor yn darparu cludiant lle mae plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf, neu yn achos plentyn sy'n derbyn addysg uwchradd, yn byw dros dair milltir o'r ysgol addas agosaf.<br><br>Darperir cludiant i ysgol y dalgylch a ddynodwyd gan yr awdurdod i wasanaethu cyfeiriad cartref y disgybl, neu i'r ysgol addas agosaf fel y penderfynir gan y cyngor.<br><br>Ni fydd y cyngor yn darparu cludiant nac yn gwneud unrhyw gyfraniad tuag at gostau cludiant disgyblion a dderbynnir o ganlyniad i rieni yn mynegi eu bod yn ffafrio ysgol nad yw'n ysgol agosaf nac yn ysgol y dalgylch. Yn yr amgylchiadau hyn, mae rhieni'n gyfrifol am wneud eu trefniadau cludiant eu hunain ac am yr holl gostau cludiant.<br><br>Ni chynigir newid dalgylch Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran pe bai'n dod yn ysgol gymunedol.</td></tr>
<tr><td>Ysgolion amgen</td><td colspan="4">Er y cynigir bod categori'r ysgol yn newid o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol, cydnabyddir y bydd rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid sy'n dymuno i'w plentyn/plant barhau i dderbyn addysg mewn ysgol ffydd yr Eglwys yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan y cynnig hwn.<br><br>Yr ysgol wirfoddol a reolir cyfrwng Cymraeg amgen agosaf yw Ysgol Ger y Llan yn Nhreletert, 23 milltir o Ysgol Cilgerran.<br><br>Gellir mynegi dewis rhieni ar gyfer ysgolion eraill.</td></tr>
</table>

### 5.3 Rhagamcanion disgyblion

Gweler adran 3.4 uchod.

### 5.4 Dalgylch yr ysgol

Dalgylch ysgol yw'r ardal ddaearyddol y mae'r cyngor sir wedi'i dynodi y dylai'r ysgol ei gwasanaethu.  Mae dalgylchoedd yn cael eu defnyddio gan y cyngor:

- fel offeryn cynllunio ar gyfer rhagweld y galw am leoedd ysgol ac i gynllunio'r ddarpariaeth i fodloni'r galw am y lleoedd hynny
- i flaenoriaethu derbyn disgyblion i ysgolion lle mae gormod o geisiadau
- fel elfen o'r polisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn trefnu cludiant i'r ysgol ac i reoli costau
- i alluogi ysgolion i uniaethu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu
  i roi syniad i rieni pa ysgol yw eu hysgol leol

Mae dalgylch Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran wedi'i nodi ar dudalen 10 o'r ddogfen hon. Cynigir i hyn aros heb ei newid.

### 5.5 Asesiadau effaith

Mae'r canlynol yn cynrychioli asesiad y cyngor o effaith y cynnig ar y gymuned, cydraddoldeb, y Gymraeg, cludiant a staff.

#### 5.5.1 Asesiad effaith ar y gymuned

Mae asesiad o effaith ar y gymuned wedi'i atodi yn **ATODLEN 2**. Fodd bynnag, bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'r ymgynghoriad yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a fydd yn cael ei chyhoeddi fel rhan o'r adroddiad ymgynghori.

#### 5.5.2 Effaith ar gydraddoldeb

Mae'r cynnig yn effeithio ar y nodwedd warchodedig crefydd a chred. Ni ragwelir unrhyw effeithiau cydraddoldeb eraill. Mae'r asesiad llawn wedi'i atodi fel **ATODIAD 3**.

#### 5.5.3 Effaith ar y Gymraeg

Mae asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wedi'i atodi yn **ATODLEN 4**.  Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, o ystyried mai'r cynnig yw newid statws yr ysgol o un wirfoddol a reolir i un gymunedol. Bydd yn parhau i fod yn ysgol Categori 3 (cyfrwng Cymraeg).

#### 5.5.4 Effaith ar gludiant

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswydd ar y cyngor i asesu anghenion teithio dysgwyr o dan 19 oed. Yn ogystal â'r plant hynny sy'n gymwys i gael cludiant am ddim oherwydd eu bod yn bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer pellter rhwng y cartref a'r ysgol, mae'r cyngor o dan rwymedigaeth gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. O ran y cynnig sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon, nid oes unrhyw effeithiau disgwyliedig ar lwybrau cerdded, o ystyried mai dim ond newid statws yr ysgol yw'r cynnig. Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol y cyngor.

#### 5.5.5 Effaith ar staff

Ni ragwelir y bydd effaith ar gontractau staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu gan y cynnig.

Serch hynny, mae staff ac undebau llafur cydnabyddedig yn ymgynghoreion statudol i'r ymgynghoriad hwn. Bydd eu barn yn cael ei hystyried ynghyd ag ymgynghoreion statudol eraill.

### 5.6 Cyllid

Unwaith y mae'r cyngor yn cymeradwyo ei gyllideb flynyddol, cymhwysir fformiwla ariannu i gyllideb yr ysgolion lleol er mwyn pennu'r cyllid a ddirprwyir i bob ysgol, h.y. y cyllid a reolir yn uniongyrchol gan gyrff llywodraethu ar gyfer gwariant refeniw. Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i 70% o gyllid cyllidebau ysgolion unigol gael ei ddosbarthu yn unol â ffactorau sy'n cael eu harwain gan ddisgyblion. Mae gan awdurdodau ddisgresiwn i ddosbarthu'r 30% sy'n weddill ar sail amrywiaeth o ffactorau fel y gallant ystyried amgylchiadau ysgolion unigol. Cyhoeddir y manylion mewn perthynas â chyllid fformiwla ysgolion yn flynyddol fel rhan o'r datganiad cyllideb o dan adran 52.

#### 5.6.1 Costau disgyblion

Dyma'r cyllid ar gyfer Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran:

| | **2025/26** | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y disgyblion (Ionawr 2025)** | **Cost fesul disgybl (net o AAA)** | **Cost gyfartalog fesul disgybl (net o AAA) – pob ysgol** |
| | Cyfwerth ag amser llawn | £ | £ |
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | 111 | £4,777 | £5,265 |

*Noder: Yn seiliedig ar Ddatganiad Cyllideb Addysg 2025/26 (adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998)*

#### 5.6.2 Arbedion refeniw

O ystyried natur y cynnig mewn perthynas ag Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, h.y. rhoi'r gorau i fod yn ysgol wirfoddol a reolir ac ailagor fel ysgol gymunedol, ni fydd unrhyw arbedion na chostau ychwanegol yn cronni o ganlyniad i'w weithredu. Mae ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion cymunedol yn derbyn eu cyllid o'r un fformiwla, ac ni wneir unrhyw wahaniaeth rhyngddynt.

#### 5.6.3 Buddsoddiad cyfalaf

Ni fydd unrhyw fuddsoddiad cyfalaf yn codi'n uniongyrchol o ganlyniad i'r cynnig hwn.

### 5.6.4 Hawl i'r tir a'r adeiladau

Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi sy'n berchen ar safle'r ysgol, ac mae angen trafodaethau i'w drosglwyddo i'r cyngor os rhoddir cymeradwyaeth i sicrhau statws ysgol gymunedol.

### 5.7 Risgiau a gwrthfesurau

| Risg | | Gwrthfesur |
|---|---|---|
| 1 | Methu â chael cymeradwyaethau perthnasol gan y cyngor a/neu fethu â chydymffurfio â'r broses briodol | - Sicrhau bod pob opsiwn yn cael ei ystyried yng ngoleuni Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018<br>- Sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i ymgymryd â'r broses<br>- Cynnal ymgynghoriad ag ymgynghoreion statudol priodol |
| 2 | Mae'n rhaid i ddisgyblion deithio ymhellach i'r ysgol | -Bydd trefniadau trafnidiaeth yn unol â'r gyfraith a pholisi'r cyngor<br><br>Darperir cludiant am ddim yn unol â'r canllawiau gweithredol ar gyfer y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a pholisi cludiant i'r ysgol Cyngor Sir Penfro.<br><br>Ni chynigir newid lleoliad yr ysgol, ond cynigir newid y statws. O ganlyniad, byddai unrhyw ddewis gan rieni am addysg barhaus mewn ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn arwain at ddisgyblion yn gorfod teithio ymhellach i'r ysgol, o ystyried mai'r ysgol amgen agosaf yw yn Nhreletert, 23 milltir i ffwrdd. |
| 3 | Gwrthwynebiad rhieni a'r gymuned i'r cynnig | • Mae'r holl fanylion perthnasol ynghylch y *status quo* a'r cynnig wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon – mae hyn er mwyn sicrhau bod yr holl ymgynghoreion yn gwbl gyfarwydd â'r wybodaeth berthnasol. Mae adran 'cwestiynau cyffredin' wedi'i chynnwys fel rhan o'r ddogfen ymgynghori hon a darperir digon o gyfle i ofyn cwestiynau.<br>• Sicrhau bod pob pryder sylweddol a godir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ymateb priodol fel rhan o'r adroddiad ymgynghori dilynol a'u bod yn cael eu rhannu ag aelodau'r cyngor i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniad. |

# 6. Dewisiadau amgen a ystyriwyd

**1. Beth yw'r dewisiadau amgen rhesymol i'r cynnig?**

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod dau opsiwn o ran darpariaeth addysg yn ardal Cilgerran:

a) Cynnal y *status quo*
b) Newid statws yr ysgol o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol

Dylid nodi nad yw'n bosibl i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir nac ysgolion sefydledig â chymeriad crefyddol dynodedig ddod yn ysgol gymunedol trwy gynnig newid categori; felly, cynnig i ddiddymu'r ddarpariaeth cyn sefydlu ysgol gymunedol newydd yw'r unig ffordd o gyflawni hyn.

## 6.1 Dewisiadau amgen

Mae asesiadau o opsiynau amgen wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon fel a ganlyn:

- Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg – gweler **ATODIAD 5**
- Yr effaith debygol ar y gymuned – gweler **ATODIAD 2**
- Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol – gweler paragraff1.4 o **ATODLEN 5**

Mae Adran 5 o'r ddogfen hon yn amlinellu cynnig y cyngor, h.y. yr opsiwn a ffefrir.  Fodd bynnag, amlinellir isod grynodeb o sylwadau mewn perthynas â'r opsiynau amgen a ystyriwyd fel rhan o ddatblygu'r cynnig hwn.

| Disgrifiad | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| Cynnal y *status quo* | • Dim gofyniad am broses statudol ar gyfer trefniadaeth yr ysgol<br>• Yn cadw ysgol wirfoddol a reolir yr Eglwys yng Nghymru yn yr ardal | • Nid yw'n galluogi ffederaleiddio yn y dyfodol er mwyn gwella cynaliadwyedd hirdymor |

| Disgrifiad | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| | • Yn bodloni dymuniadau rhai aelodau o'r gymuned leol a rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid<br>• Yn bodloni dymuniadau'r esgobaeth | |
| Newid statws o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol | • Mae newid y statws i ysgol gymunedol yn rhoi cyfle yn y dyfodol i ffederaleiddio ag un neu fwy o ysgolion lleol, sydd i gyd yn ysgolion cymunedol. Byddai hyn yn gwella cynaliadwyedd hirdymor | • Mae angen proses statudol ar gyfer trefniadaeth yr ysgol<br>• Yn gadael yr ardal heb ysgol wirfoddol a reolir<br>• Nid yw'n bodloni dymuniadau rhai aelodau o'r gymuned leol, rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid na'r esgobaeth |

# 7. Y broses statudol

Bydd y broses statudol a ddilynwyd mewn perthynas â'r cynnig sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ddogfen hon yn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac, yn benodol, y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Bydd y broses a'r amserlen fel a ganlyn:

| Dyddiad | Y broses | |
|---|---|---|
| 16 Rhagfyr 2025 | **Cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori** | |
| Dyddiad i'w gadarnhau | **Sesiwn ymgynghori â disgyblion Cilgerran** | |
| 30 Ionawr 2026 | **Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig** | |
| O leiaf pythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol | **Cyhoeddi adroddiad ymgynghori**<br><br>**- Cyflwyno adroddiad ymgynghori i'r cyngor**<br>*Y cyngor i benderfynu a ddylid cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol*<br>*Os caiff ei gymeradwyo – mynd ymlaen i hysbysiad statudol*<br>*Os na chaiff ei gymeradwyo – daw'r cynnig i ben* | |
| O fewn 26 wythnos i'r dyddiad cau uchod | **Cyhoeddi hysbysiad statudol**<br>*Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor sir a gwefan unrhyw gynigydd arall a'i bostio yn yr ysgolion a enwir a mannau amlwg eraill yn y gymuned. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion perthnasol i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau o staff.*<br><br>*Cyhoeddir yr hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol a bydd yn caniatáu cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Rhaid i 15 o'r diwrnodau hyn (ac eithrio diwrnod y cyhoeddiad) fod yn ddiwrnodau ysgol.* | |
| 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad statudol | **Dyddiad cau ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau i'r cynnig** | |
| O fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu | **<u>Os derbyniwyd gwrthwynebiadau</u>**<br><br>**- Cyflwyno adroddiad gwrthwynebiadau i'r cyngor**<br>*Y cyngor i benderfynu ar y cynnig yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd a chynnwys yr adroddiad gwrthwynebiadau* | **<u>Os na dderbyniwyd gwrthwynebiadau</u>**<br><br><u>Y cyngor i benderfynu ar y cynnig</u> |
| O fewn 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu | **Cyhoeddi penderfyniad y cyngor** | |
| Medi 2026 | **Os caiff ei gymeradwyo, gweithredu'r cynnig** | |

Bydd yr holl adroddiadau a restrir uchod yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor sir gyda rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau staff yr ysgolion perthnasol yn cael gwybod eu bod ar gael.Bydd pob ymgynghorai a restrir yn Adran 2 o'r ddogfen hon yn cael dolen i'r dudalen berthnasol ar wefan y cyngor drwy e-bost; bydd copïau caled o'r holl ddogfennau ar gael os

gofynnir amdanynt drwy e-bostio EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk neu drwy ffonio 01437 775164.

## 8. Cwestiynau cyffredin

| |
|---|
| **Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, pryd y caiff ei weithredu?**<br>Ar sail ein trywydd cynllunio presennol, byddai Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn cau ar 31 Awst 2026 ac yn ailagor ar 1 Medi 2026 fel ysgol gymunedol. |
| **A fydd disgyblion yn gymwys i gael cludiant i'r ysgol wirfoddol a reolir agosaf a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru?**<br><br>Na. Mae'r ysgol wirfoddol a reolir Gymraeg amgen agosaf yn Nhreletert, 23 milltir i ffwrdd o ysgol Cilgerran. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Penfro ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i'r rhai sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol a mwy na dwy filltir o'r ysgol. |
| **Os aiff y cynnig yn ei flaen, beth fydd yn digwydd i'r llywodraethwyr presennol?**<br><br>Fel rhan o'r cynnig i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, a'i sefydlu fel ysgol gymunedol, byddai corff llywodraethu'r ysgol yn dod i ben ar ôl iddi gau, ac felly byddai'r llywodraethwyr presennol yn peidio â bod yn llywodraethwyr ar yr adeg honno. Yna byddai corff llywodraethu newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer yr ysgol gymunedol (a'i gyfansoddi yn unol â Deddf Addysg 2002). Byddai llywodraethwyr newydd yn cael eu penodi, a byddai cyfle i lywodraethwyr blaenorol (cyn y newid statws) geisio cael eu hailbenodi ar y bwrdd newydd. Y gwahaniaeth allweddol yw na fyddai llywodraethwyr sefydledig (yn gyfrifol am gynrychioli'r Eglwys yng Nghymru) ar gorff llywodraethu'r ysgol gymunedol. |
| **Onid yw hyn yn *fait accompli* lle mae penderfyniad i gau'r ysgol a'i sefydlu fel ysgol gymunedol eisoes wedi'i wneud?**<br>Na, yr unig benderfyniad a wnaed hyd yn hyn yw un i ymgynghori ar y cynnig. Mae'r ddogfen hon yn rhan o'r broses ymgynghori lle rhoddir cyfle i rieni, llywodraethwyr, staff, y gymuned ehangach a nifer o randdeiliaid eraill ddweud eu dweud. Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cyhoeddi fel rhan o adroddiad ymgynghori dilynol y bydd aelodau etholedig y cyngor yn ei ystyried cyn gofyn iddynt benderfynu a ydynt am symud ymlaen i'r cam nesaf. |
| **Sut alla i wrthwynebu cynnig y cyngor?** |

Fel yr amlinellwyd yn Adran 7 o'r ddogfen hon, mae'r broses trefniadaeth ysgolion yn hir a gall gymryd sawl mis i'w chwblhau. Y cam presennol yn y broses yw ymgynghori, lle gall unrhyw un fynegi eu barn. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar gael i'r cyngor fel y gall aelodau etholedig wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid bwrw ymlaen. Ni fydd unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir yn ystod y broses ymgynghori yn cael eu trin felly. Fodd bynnag, os bydd y cyngor yn penderfynu symud ymlaen i'r cam nesaf, h.y. cyhoeddi hysbysiad statudol, yna gall unrhyw un wneud gwrthwynebiad ffurfiol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod dilynol. Unwaith eto, bydd yr holl wrthwynebiadau a dderbynnir ar gael i'r cyngor cyn i aelodau etholedig wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig.

**Beth mae ffederasiwn yn ei olygu a beth yw'r manteision?**

Mae'r term ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae nifer o ysgolion (rhwng dwy a chwech) yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn cael un corff llywodraethu. Gall ffederasiynau gynnwys cymysgedd o ysgolion cymunedol a gynhelir ac ysgolion arbennig cymunedol sydd naill ai'n ysgolion meithrin, cynradd neu uwchradd, yn ogystal â chyfuniad o ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwy ffrwd.

Dim ond ag ysgolion o'r un categori neu ag ysgolion sydd â statws ymddiriedolaeth elusennol a/neu ethos crefyddol tebyg y gall ysgolion sydd â ffydd a/neu ymddiriedolaeth, fel ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir, ffederaleiddio.

Mae ffederaleiddio yn galluogi ysgolion i gydweithio a rhannu adnoddau, arbenigedd ac arfer gorau i wella safonau addysgol a chanlyniadau i ddisgyblion. Mae ysgolion ffederal yn cynnal eu hunaniaeth a'u cyllidebau unigol, ond maent yn elwa o adnoddau a rennir a dull unedig o addysgu.

Gall ysgolion ffederal fod yn fwy cynaliadwy oherwydd eu gallu i rannu adnoddau ac elwa o arbedion maint. Er enghraifft, mae ganddyn nhw'r opsiwn o rannu pennaeth rhwng mwy nag un ysgol. O ystyried bod recriwtio penaethiaid mewn ysgolion bach yn Sir Benfro yn heriol, gallai hyn ddarparu budd sylweddol ar ryw adeg yn y dyfodol pan fydd rôl y pennaeth yn dod yn wag.

**Os ydych chi eisiau cael y cyfle i ffederaleiddio yn y dyfodol, beth am newid rhai o'r ysgolion cymunedol lleol yn ysgolion wirfoddol a reolir yn lle newid statws Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran?**

Nid ystyrir bod hyn yn ddull rhesymegol, o ystyried bod yr holl ysgolion lleol eraill yn yr ardal yn ysgolion cymunedol. Byddai'n gofyn am newid statws sawl ysgol gymunedol i ysgolion wirfoddol a reolir, tra bod y cynnig hwn ond yn gofyn am newid statws i un ysgol er mwyn galluogi cyfleoedd ffederaleiddio yn y dyfodol yn yr ardal.

**Beth yw lleoedd gwag?**

Mae gan bob ysgol gapasiti cyhoeddedig sy'n cynrychioli ei chapasiti ffisegol i ddarparu ar gyfer disgyblion, h.y. maint a defnydd yr adeilad, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth. Mae capasiti Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn 133. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod "*rhai lleoedd gwag yn angenrheidiol er mwyn galluogi ysgolion i ymdopi ag amrywiadau yn nifer y disgyblion, ond mae nifer gormodol o leoedd nas defnyddir y gellid eu dileu yn golygu bod adnoddau'n cael eu clymu'n anghynhyrchiol …. lle mae mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a dylent ystyried a ddylid gwneud cynigion ar gyfer eu dileu os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth*. *Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol ac o leiaf 30 o leoedd gwag.*"

Yn 2025, ar draws y saith ysgol gynradd yng nghlwstwr y Preseli (Eglwyswrw, Brynconin, Maenclochog, Llandudoch, Ysgol Clydau, Bro Preseli, Cilgerran), roedd 904 o leoedd ond dim ond 596 o ddisgyblion, gan arwain at 308 (34.07%) o leoedd gwag.

# Manylion yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt

| Enw'r ysgol | Categori | Categori iaith | Ystod oedran | Disgyblion dosbarth meithrin (Ionawr 2025) | Cyfanswm NAG* (Ionawr 2025) | Gradd cyflwr | Gradd addasrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | Gwirfoddol a reolir | Cat. 3 | (3-11) | 14 | 114 | B | B |

**Nodiadau:**

- Mae niferoedd y disgyblion fel yr oeddent yn CYBLD 2025 ac yn cynnwys disgyblion y canolfannau adnoddau dysgu
- Mewn perthynas â graddau cyflwr ac addasrwydd:
  - A = Da
  - B = Boddhaol (cyflwr) / Rhesymol (addasrwydd)
  - C = Gwael

* NAG = Nifer ar y gofrestr

| Ysgol | Capasiti | Nifer derbyn | Nifer gwirioneddol ar y gofrestr (net o ddisgyblion rhan-amser ac unedau) | | | | | Rhagolygon disgyblion* (net o ddisgyblion rhan-amser ac unedau) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2025/26 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
| Ysgol Cilgerran | 133 | 19 | 97 | 106 | 110 | 97 | 100 | 95 | 92 | 94 | 91 | 90 |

# ASESIAD EFFAITH AR Y GYMUNED

| Maes effaith | +/- |
|---|---|
| **Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**<br><br>**Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran**<br><br>Ar sail CYBLD 2025, roedd 112 o ddisgyblion cynradd yn byw yn nalgylch Ysgol Cilgerran ac yn mynychu ysgolion Sir Benfro. O'r rhain, mynychodd 88 (78.6%) yr ysgol.<br><br>Oherwydd eu bod yn agos at ffiniau'r awdurdod lleol gyda Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, mae nifer o ddisgyblion yn byw yn Sir Benfro ond yn mynychu ysgolion yn y siroedd hynny. Ar sail gwybodaeth a gafwyd gan y ddau awdurdod yn ystod tymor yr hydref 2024, mae tua deg disgybl o ddalgylch Cilgerran yn mynychu ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin a 49 yng Ngheredigion. | Dim newid |
| **Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**<br><br>**Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran**<br><br>Ar sail CYBLD 2025, mynychodd 114 o ddisgyblion Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran. O'r rhain, roedd 88 (77.2%) yn mynychu o ddalgylch yr ysgol. Mynychodd y disgyblion sy'n weddill o'r dalgylchoedd canlynol:<br><br>Ysgol Gynradd Gymunedol Eglwyswrw – 4<br><br>Ysgol Gynradd Gymunedol Maenclochog – 1<br><br>Ysgol Gynradd Gymunedol Llandudoch – 5<br><br>Ysgol Bro Ingli – 2 | Dim newid |

| | |
|---|---|
| Ysgol Bro Preseli – 9<br><br>Ceredigion – 4<br><br>Sir Gaerfyrddin – 1<br><br>O ystyried patrymau dewis rhieni presennol, ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn newid yn sylweddol yn dilyn newid yng nghategori'r ysgol. | |
| **Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill sydd gan yr ysgol, e.e. clwb ieuenctid, cylch chwarae**<br><br>**Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu, e.e. clybiau ar ôl yr ysgol, llyfrgell gymunedol**<br><br>Adeiladwyd ac agorwyd canolfan blynyddoedd cynnar yn 2006. Mae Mudiad Meithrin yn cynnig darpariaeth ar gyfer plant dwyflwydd. | Dim newid |
| **Os darperir llety, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble y byddent yn cael eu darparu pe bai'n cau**<br><br>Ni fyddai unrhyw golled o gyfleusterau na gwasanaethau. | Dim newid |
| **A fydd cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol gyfagos neu ehangach yn cael eu gwella neu a allai gael eu gwella pe bai ysgol yn cau (e.e. gwelliannau i neuaddau pentref, meysydd chwarae, darparu cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau)**<br><br>Ni fyddai unrhyw golled o gyfleusterau na gwasanaethau. Byddai'r gymuned yn parhau i elwa o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael. | Dim newid |
| **Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol arall**<br><br>Nid oes unrhyw opsiynau sy'n gofyn am ystyried ysgol arall. | Dim newid |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio sy'n gysylltiedig â mynychu ysgol arall o'r un categori iaith**<br><br>Nid oes unrhyw opsiynau sy'n gofyn am ystyried ysgol arall o ran categori iaith.<br><br>Fodd bynnag, mae'r ysgol wirfoddol a reolir cyfrwng Cymraeg agosaf yn Nhreletert, 23 milltir o Gilgerran. | Dim newid. Fodd bynnag, gall hyn ddod yn effaith negyddol ar blant sy'n mynychu'r ysgol yn benodol oherwydd ei statws ffydd. |
| **Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig (e.e. sut y bydd disgyblion (ac yn enwedig unrhyw ddisgyblion llai breintiedig) yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl yr ysgol)**<br><br>Nid oes unrhyw opsiynau sy'n gofyn am ystyried ysgol arall. | Dim newid |
| **Effaith ar iechyd a lles, e.e. pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol**<br><br>Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar iechyd a lles, er bod hyn yn bosibl o ran yr effaith bosibl ar ddisgyblion o ran peidio â derbyn addysg o ysgol ffydd mwyach. O ran mynediad at y ddarpariaeth, bydd y dalgylchoedd cynradd ac uwchradd yn aros yr un fath a bydd disgyblion sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol ar hyn o bryd yn parhau i allu gwneud hynny. | Dim newid / newid negyddol posibl |
| **Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau'n eu cael ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus**<br><br>Nid oes unrhyw oblygiadau ehangach ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus o ganlyniad i'r cynnig. | Dim newid |
| **Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach**<br><br>Ni chynigir newid cwmpas y ddarpariaeth, dim ond yr endid y caiff ei chyflwyno ynddo. Mae'n annhebygol y bydd yn arwain at unrhyw newid i faterion diogelwch cymunedol ehangach. | Dim newid |

| | |
|---|---|
| **A fyddai cau'n annog teuluoedd â phlant oedran ysgol i adael y gymuned neu'n annog teuluoedd ifanc i beidio â symud i'r gymuned**<br><br>Ni chynigir dileu darpariaeth, dim ond newid yr endid. | Dim newid |
| **Pa effaith y gallai cau ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, er enghraifft os mai'r ysgol yw'r unig adeilad cyhoeddus sy'n weddill mewn cymuned**<br><br>Ni chynigir dileu darpariaeth, dim ond newid yr endid. | Dim newid |
| **P'un a yw'r ysgol yn ganolfan wirioneddol i fywyd cymunedol (ai peidio) a ddefnyddir at ddibenion eraill – megis cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau, cymorthfeydd, a chyfarfodydd eraill – a fyddai naill ai'n dod i ben neu'n cael eu lleihau pe bai'n ofynnol iddynt symud i rywle arall**<br><br>Ni chynigir dileu darpariaeth, dim ond newid yr endid. | Dim newid |
| **A fydd colli'r ysgol, a theuluoedd posibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned ai peidio**<br><br>Ni chynigir dileu darpariaeth, dim ond newid yr endid. | Dim newid |
| **Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig (e.e. sut y bydd disgyblion, yn enwedig disgyblion llai breintiedig, yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl yr ysgol)**<br><br>Nid oes unrhyw opsiynau sy'n gofyn am ystyried ysgol arall. | Dim newid |
| **Effaith gyffredinol cau ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol)** | Dim newid |

| | |
|---|---|
| Ni fydd unrhyw golled o gyfleusterau na gwasanaethau o ganlyniad i unrhyw un o'r opsiynau ar gyfer newid. Mae'r opsiynau cynnig yn cynnwys cynnal y *status quo* a newid endid yn unig. | |

| **Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â nodau llesiant Sir Benfro / Cymru** | |
|---|---|
| **Llewyrchus** | Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn effeithio ar ffyniant yn yr ardal |
| **Gwydn** | Mae'r cynnig yn alluogwr ar gyfer gwneud yr ysgol yn fwy gwydn o ran cyfleoedd yn y dyfodol i ystyried ffederaleiddio |
| **Iachach** | Dim effaith sylweddol wedi'i rhagweld |
| **Cyfartal** | Gweler Atodiad 3 |
| **Cymunedau cydlynus** | Effaith tymor byr ddisgwyliedig tra bo'r newid yn newydd ac o bosibl yn aflonyddgar, cyn iddo ddod yn normal newydd |
| **Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Dim effaith yn cael ei rhagweld gan y byddai'r ysgol yn parhau i fod yn un Gymraeg |
| **Cyfrifol ar lefel fyd-eang** | Dim effaith wedi'i rhagweld |

| **Asesu cynaliadwyedd y cynnig** | |
|---|---|
| **Tymor hir**<br>Sut mae'r cynnig yn cydbwyso'r tymor byr â diogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir | Mae'r cynnig yn cynyddu'r siawns y bydd yr ysgol yn parhau yn y tymor hir yng nghyd-destun ardal â lleoedd gwag sylweddol, drwy alluogi cyfleoedd ffederaleiddio yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Atal**<br>Sut y gallai'r cynnig atal problemau rhag digwydd neu waethygu | Ni fyddai cynnal y *status quo* yn galluogi ystyried cyfleoedd ffederaleiddio yn y dyfodol, a gallai recriwtio pennaeth newydd addas fod yn heriol pan fydd y swydd yn dod yn wag. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Mae'r cynnig yn dilyn gofynion ymgynghori statudol Llywodraeth Cymru ac mae'n unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod darpariaeth addysg mewn siroedd yn darparu gwerth am arian. |
| **Cydweithredu**<br>Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â gweithio gyda sefydliadau eraill neu rannau eraill o'r cyngor | Mae cydweithio â sefydliadau eraill, yn enwedig corff llywodraethu'r ysgol, yn allweddol i sicrhau bod y cynnig yn cael ei weithredu ac, yn y pen draw, yn llwyddiannus. |
| **Cynnwys pobl**<br>Sut mae pobl wedi bod yn rhan a sut rydym wedi sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth Sir Benfro | Mae cyfranogiad eang gan randdeiliaid yn rhan gynhenid o'r broses statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn Sir Benfro. |

**ATODIAD 3**

# Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

| Nodweddion gwarchodedig | Ysgol Cilgerran | Cynnig | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | Mae gan Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran ystod oedran 3-11. | Dim newid wedi'i gynnig | Dim newid |
| **Anabledd** | Mae'r ysgol i gyd ar un lefel ac mae'n elwa o ramp a chanllaw i lawr i'r ardal laswelltog awyr agored. | Dim newid wedi'i gynnig | Dim newid |
| **Hil** | Mae data o Fy Ysgol Leol (gweler 3.2 uchod) yn dangos nad oes unrhyw ddisgyblion yn cael eu disgrifio fel rhai sydd â chefndir ethnig heblaw am Wyn Prydeinig.<br>Nid oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn hil yn y polisi derbyn. | Dim newid wedi'i gynnig | Dim newid |
| **Crefydd a chred** | Ysgol wirfoddol a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran. | Y cynnig yn y ddogfen hon yw cau'r ysgol a'i sefydlu fel ysgol gymunedol. | Newid negyddol |
| **Rhyw** | Ysgol gymysg yw Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran. | Dim newid wedi'i gynnig | Dim newid |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | Mae Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn bodloni'r gofynion i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o fewn eu cynlluniau tegwch strategol. | | Dim newid |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | | | Dim newid |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | Dim newid |
| **Ailbennu rhywedd** | | | Dim newid |

**ATODIAD 4**

# ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG – HYDREF 2025

Cynhaliwyd yr asesiad hwn yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn Atodiad C i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ynghyd ag ystyriaethau ehangach yn unol â chanllawiau ar asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg yng nghyd-destun Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015. Ar ben hynny, mae wedi'i ysgrifennu yng nghyd-destun fframwaith cyfreithiol a pholisi ehangach, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at saith nod llesiant, gan gynnwys *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*.
- Cymraeg 2050, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gan weithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad y Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Rydym yn cydnabod bod addysg cyfrwng Cymraeg yn ffactor hanfodol wrth gyflawni'r weledigaeth hon.
- Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sy'n amlinellu ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro.

**Pwy fydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt yn uniongyrchol?**

Bydd y cynnig yn cael effaith ar bob disgybl sy'n mynychu Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran ar hyn o bryd, a'u rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.

O ganlyniad i'r ystyriaeth a amlinellir yn yr asesiad effaith hwn (tabl isod) ac yn yr asesiad effaith ar y gymuned (Atodiad 2), ystyrir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg. Mae hyn oherwydd bod y cynnig yn ymwneud â newid categori yn unig (o wirfoddol a reolir i gymunedol). Byddai'r ysgol yn parhau i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, ac felly ni fyddai unrhyw newid nac effaith sylweddol ar y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol | Mae Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. |
| Gwybodaeth am gategori iaith unrhyw ysgol amgen | Mae pob ysgol gynradd arall yng nghlwstwr Preseli hefyd yn ysgolion Categori 3.<br><br>Mae'r ysgol wirfoddol a reolir cyfrwng Cymraeg agosaf yn Nhreletert. |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am safonau yn y Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ysgol arall | Daw nifer sylweddol o ddysgwyr o deuluoedd lle nad yw'r Gymraeg yn iaith y cartref, ac nid yn iaith gyntaf y disgyblion. Fodd bynnag, mae safonau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n gadarnhaol o ran llafaredd, darllen ac ysgrifennu o adeg eu derbyn. Mae disgyblion yn sgwrsio'n rhugl ac yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion, ac erbyn i ddisgyblion adael yr ysgol maent yn gwbl ddwyieithog. Mae'r ysgol wedi targedu datblygu sgiliau disgyblion yn unol â fframwaith Cymraeg yr awdurdod lleol ac wedi ymgysylltu â blaenoriaeth y clwstwr o ddatblygu darllen Cymraeg. Mae disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn cael eu cefnogi gan ddarpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer hwyrddyfodiaid ac mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da gyda'r cymorth a ddarperir. |
| Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl yr ysgol sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ysgol arall (e.e. yr Urdd, clybiau'r mentrau iaith) | Mae'r ysgol yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd, a gweithgareddau a drefnir gan y fenter iaith a'r awdurdod lleol er mwyn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. |
| Gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu ymgymryd â gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, a ble y gellid darparu unrhyw gyfleusterau eraill | Cefnogir y ddarpariaeth ar gyfer dysgu Cymraeg gan Ddysgu Sir Benfro, sy'n darparu dosbarthiadau yn y lleoliadau canlynol:<br>Canolfan Dysgu Cymunedol Abergwaun<br>Hermon<br>Bloomfield, Arberth<br>Ar-lein |
| A fyddai'n briodol darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl yr ysgol mewn unrhyw ysgol arall er mwyn sicrhau safonau yn y Gymraeg ymhellach | Ni fydd y cynnig i newid statws yr ysgol yn cael unrhyw effaith ar yr ystyriaethau hyn. |
| Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion ag unrhyw ysgol amgen ac unrhyw welliant iaith penodol y mae'n ei gynnig (e.e. sut y | |

| | |
|---|---|
| bydd disgyblion yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau a ddarperir gan yr Urdd, mentrau iaith ac ati) | |
| Effeithiau posibl y gallai penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n sicrhau y gall pob disgybl sy'n derbyn addysg Gymraeg ar hyn o bryd barhau i dderbyn addysg Gymraeg yn yr un ysgol. Dim ond newid statws yr ysgol i ysgol gymunedol yw'r cynnig.<br><br>Rhagwelir y bydd cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn aros o leiaf yr un fath ag y maent ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael yn ddwyieithog, er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd y cyfle i ddarllen dogfennaeth sy'n ymwneud â'r cynnig yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg, ac i ddarparu ymateb yn eu dewis iaith. |
| Sylwadau a ddarparwyd gan fforwm addysg cyfrwng Cymraeg yr awdurdod lleol | Nid yw'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg wedi darparu sylw ar y cynnig hwn. |
| Gwybodaeth am sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol a fydd eu hangen o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau yn y cynllun | Bydd y ddarpariaeth yn Ysgol Cilgerran yn parhau i gefnogi'r amcanion a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, heb unrhyw newid disgwyliedig. |

## Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynnig trefniadaeth ysgolion

<table>
<tr><th>Ffactorau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion</th><th>Cynnal y status quo</th><th>Newid statws<br>o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol</th></tr>
<tr><td colspan="3">1.3 Ansawdd a safonau mewn addysg<br>Dylai cyrff perthnasol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall. Gan gyfeirio at bum maes arolygu Fframwaith Arolygu Cyffredin Swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru (Estyn) (2024), dylent ystyried effaith debygol y cynigion ar y canlynol yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall sy'n debygol o gael ei effeithio.</td></tr>
<tr><td>– Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau<br>– Llesiant ac agweddau at ddysgu<br>– Profiadau addysgu a dysgu (ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a'r ddarpariaeth o sgiliau)<br>– Cymorth a chanllawiau gofal (olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol, a diogelu)<br>– Arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, dysgu proffesiynol, a defnyddio adnoddau)<br>– Dylai cyrff perthnasol roi sylw arbennig i effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag AAA</td><td colspan="2" rowspan="2">Nid ystyrir y bydd ansawdd a safonau addysg Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran yn newid o ganlyniad i newid statws.<br><br>Cyhoeddwyd arolygiad Estyn diweddaraf yr ysgol ym mis Hydref 2017. Fodd bynnag, dyma asesiad cyfredol yr ysgol gan ei ymgynghorydd gwella:<br><br>• Mae disgyblion yn dangos parch, cwrteisi ac ymddygiad da, gan gyfrannu at awyrgylch cadarnhaol yn yr ysgol. Mae staff yr ysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth feithrin yr amgylchedd hwn drwy sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn hapus. Mae'r pwyslais ar lesiant yn amlwg wrth i aelodau staff greu awyrgylch cynhwysol a chefnogol, gan fynd i'r afael nid yn unig ag anghenion academaidd ond hefyd â datblygiad emosiynol a chymdeithasol disgyblion.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos sgiliau llythrennedd pwrpasol ar draws y cwricwlwm trwy amrywiol brofiadau dysgu. Drwy ddarparu cyfleoedd cyson ac amrywiol ar gyfer datblygu llythrennedd, mae'r ysgol yn sicrhau y gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu sgiliau iaith yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu sgiliau llafaredd Cymraeg yn effeithiol ac yn gyson ar draws yr ysgol ac yn ystod gwersi. Mae strategaethau ymarfer iaith rheolaidd wedi arwain at batrymau iaith llafar ac ysgrifenedig datblygedig iawn i lawer o ddisgyblion.<br>• Mae cyfleoedd i gymhwyso sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn arwain at ddatblygiad cryf yn y maes hwn. Yn ogystal, caiff sgiliau bywyd go iawn eu hyrwyddo trwy weithgareddau fel rheoli siop ffrwythau'r ysgol a thrin rhoddion elusennol, sydd yn ei dro yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso eu sgiliau rhifedd ym mywyd beunyddiol.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd a dyfalbarhad wrth ddysgu ac yn ymfalchïo yn eu gwaith, gan arwain at dasgau sydd wedi'u cyflwyno'n dda.</td></tr>
<tr><td>Dylai cyrff perthnasol hefyd ystyried gallu'r ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a phob cyfnod allweddol addysg. Dylai'r ystyriaeth hon gynnwys ansawdd y ddarpariaeth cwricwlwm a'r graddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Ffactorau’r Cod Trefniadaeth Ysgolion</th><th>Cynnal y status quo</th><th>Newid statws<br>o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol</th></tr>
<tr><td>Lle mae cynigion yn cynnwys trosglwyddo dysgwyr i ddarpariaeth amgen, fel arfer dylai fod tystiolaeth y byddai’r dewis arall yn cyflawni canlyniadau ac yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i’r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i’r dysgwyr hynny (gan gynnwys dysgwyr ag AAA). Gellid defnyddio cyngor gan Estyn yn rhesymol fel tystiolaeth mewn perthynas â darpariaeth amgen sy’n newydd sbon. Dylai cynigwyr sicrhau bod yr aflonyddwch i ddysgwyr mor fach â phosib.</td><td colspan="2" rowspan="2"><ul>
<li>Mae arddangosfeydd yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws yr ysgol yn cefnogi disgyblion i ddatblygu ystod o sgiliau a chyfleoedd dysgu wrth adlewyrchu’r pedwar diben a gwerthoedd yr ysgol.</li>
<li>Mae’r ysgol yn cynnwys aelodau lleol o’r gymuned yn weithredol er mwyn gwella dysgu trwy amrywiaeth o weithgareddau gwerthfawr sy’n cyd-fynd â’r Cwricwlwm i Gymru, ac mae hefyd yn gwneud ymdrech i ddatblygu ardaloedd dysgu awyr agored sy’n hyrwyddo cyfleoedd dysgu estynedig ac yn ysgogi chwilfrydedd disgyblion.</li>
<li>Mae’r rhan fwyaf o staff addysgu wedi gwella eu prosesau marcio ac adborth, gan eu teilwra i oedran a gallu disgyblion, sy’n hyrwyddo dysgu’n effeithiol. Yn ogystal, mae’r ysgol yn gweithio ar ddatblygu cod gwahaniaethu, er bod angen mwy o amser i’w sefydlu’n gadarn. Er bod llawer o staff yn addysgu’n dda yn gyson, mae angen cymorth a mentora ychwanegol ar rai i ddatblygu eu sgiliau addysgu ymhellach er mwyn sicrhau dysgu ac adborth effeithiol.</li>
<li>Mae’r pennaeth yn rheoli cyfrifoldebau rôl y CADY yn effeithiol, gan sicrhau cymorth cynhwysol i bob disgybl. Mae’r CADY’n drefnus, gan weithredu systemau trylwyr er mwyn nodi a chefnogi dysgwyr mewn angen a defnyddio ystod eang o strategaethau ac ymyriadau.</li>
<li>Mae gweledigaeth glir y pennaeth, yn seiliedig ar gydweithio, yn meithrin gwerthoedd sy’n cymell dysgwyr hyderus ac iach, tra bod trefniadau hunanwerthuso effeithiol yn cyfrannu’n gadarn at lunio blaenoriaethau gwella, gan wneud y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen weithredol ar draws yr ysgol.</li>
<li>Mae’r corff llywodraethu yn darparu cefnogaeth a her effeithiol, gan gynnal gwybodaeth dda am y ddarpariaeth a’r effaith ar lesiant a chynnydd disgyblion.</li>
<li>Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd dysgu cadarn i staff, gan gysylltu dysgu proffesiynol â blaenoriaethau gwella’r ysgol a’r clwstwr, a monitro’r effaith ar ddarpariaeth a dulliau addysgu yn rheolaidd.</li>
</ul></td></tr>
<tr><td>Wrth asesu effaith cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg a pha mor effeithiol y mae’r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno, dylai cyrff perthnasol ystyried unrhyw gyngor perthnasol gan Estyn, cyfeirio at adroddiadau diweddaraf Estyn neu dystiolaeth arall sy’n deillio o fonitro perfformiad, ac ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyffredinol ar effeithiolrwydd ysgol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">1.4 Yr angen am leoedd a’r effaith ar hygyrchedd ysgolion<br>Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd yn eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os ydynt yn ddigonol o ran nifer, cymeriad ac offer i roi cyfle i bob disgybl gael addysg briodol.[2] Er mwyn cyflawni’r dyletswyddau hyn, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod</td></tr>
</table>

[2] Adran 14 o Ddeddf Addysg 1996.

| Ffactorau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y *status quo* | Newid statws<br>o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol |
|---|---|---|
| yn cynllunio'n drylwyr ac yn ymgysylltu'n llawn â phartneriaid perthnasol, gan gynnwys y cyrff crefyddol priodol3 ar gyfer ysgolion sy'n gwasanaethu eu hardal sydd â chymeriad crefyddol dynodedig.<br><br>Yng ngoleuni'r uchod, dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol: | | |
| **Lle cynigir cau ysgol, lleihau capasiti neu grebachu ystod oedran:** | | |
| • a fydd gan ddarpariaeth amgen sy'n seiliedig ar ysgolion ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau o'r un ansawdd o leiaf, ar gyfer niferoedd presennol y disgyblion a'r niferoedd a ragwelir | Amherthnasol | Nid oes cynnig i ddileu darpariaeth – felly nid oes angen darpariaeth amgen mewn ysgolion. Bydd darpariaeth gynradd yn parhau ond ar ffurf ysgol gymunedol. |
| • gan gyfeirio at natur yr ysgolion sy'n destun cynigion, a yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ddiwallu'r galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion:<br><br>a. o'r un categori iaith fel y nodir yn "Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg" dogfen wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 023/2007 (dogfen wybodaeth Rhif 023/2007); a<br>*b.* (os yw'n berthnasol) o'r un cymeriad crefyddol dynodedig | Amherthnasol | Nid oes cynnig i ddileu darpariaeth – felly nid oes angen darpariaeth amgen mewn ysgolion. Bydd darpariaeth gynradd yn parhau ond ar ffurf ysgol gymunedol.<br><br>Byddai categori iaith yr ysgol arfaethedig yn aros yr un fath.<br><br>Ni fyddai gan yr ysgol arfaethedig gymeriad crefyddol. |

[3] Corff crefyddol priodol yw, yn achos ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol, neu, yn achos ysgolion eraill, y corff sy'n cynrychioli'r grefydd a'r enwad crefyddol a nodwyd mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

| Ffactorau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y *status quo* | Newid statws<br>o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol |
|---|---|---|
| Ym mhob achos, dylai awdurdodau lleol ystyried:<br>• I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cymeradwy<br>• Sut fyddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg ac, yn achos yr olaf, nodi pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau | Dim newid – mae'r cynnig, a dewisiadau eraill, yn arwain at gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddent yn parhau i gefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y cyngor ac ni fyddent yn ehangu nac yn lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. | |
| • Natur siwrneiau i ddarpariaeth amgen ac amseroedd siwrneiau canlyniadol i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag AAA; yn benodol, a fydd gan ddisgyblion ysgol gynradd siwrneiau un ffordd sy'n fwy na 45 munud neu ddisgyblion ysgol uwchradd siwrneiau un ffordd sy'n fwy nag awr<br><br>Dylai trefniadau ar gyfer cael mynediad at y ddarpariaeth amgen annog trafnidiaeth gynaliadwy a dylent fynd i'r afael ag effaith bosibl unrhyw anawsterau trafnidiaeth ar ymgysylltiad disgyblion â'r ysgol a'u presenoldeb ynddi. Dylid asesu llwybrau cerdded neu feicio tebygol o ran diogelwch a hygyrchedd cyn cyflwyno cynigion. | Dim newid. | Mae'n annhebygol y bydd newid statws yr ysgol yn arwain at amseroedd teithio gormodol i ddarpariaeth amgen. Bydd yr ysgol yn parhau i wasanaethu ei dalgylch ac ni fydd y cymhwystra ar gyfer cludiant i'r ysgol yn newid.<br><br>Gall tynnu statws ffydd yr ysgol yn ôl arwain at gais i hyn gael ei ddarparu mewn ysgol arall, ond fel yr amlinellir mewn man arall yn yr atodiad hwn, mae ysgol o'r fath tua 23 milltir o Gilgerran, yn Nhreletert.<br><br>Bydd polisi cludiant i'r ysgol y cyngor yn parhau i fod yn berthnasol yn ogystal â chydymffurfio â'r Rheoliadau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru). |
| **Lle cynigir ysgol newydd, cynnydd mewn capasiti neu ehangu'r ystod oedran:** | | |
| • bod tystiolaeth o angen/galw presennol neu yn y dyfodol yn yr ardal | Dim newid | |

| Ffactorau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y *status quo* | Newid statws<br>o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol |
|---|---|---|
| am leoedd ychwanegol, gan gyfeirio at gategori iaith yr ysgol neu'r ysgol arfaethedig, cymeriad crefyddol dynodedig, a'r derbyniad rhyw (h.y. cyd-addysgol / un rhyw)<br><br>• a fydd cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | | |
| **1.5 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill**<br>Mae'n bwysig bod cyllid ar gyfer addysg yn gosteffeithiol. Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas ag adnoddau addysg: | | |
| • pa effaith fydd gan y cynigion ar leoedd gwag yn yr ardal | Ni fydd y cynnig a'i ddewis arall yn cael effaith ar leoedd gwag yn yr ardal. | |
| • a yw cynigion yn rhan o raglen fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif yr awdurdod lleol ac yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain ganrif ac at reolaeth strategol well o ystad yr ysgolion | Nid yw Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r cyngor ar hyn o bryd. | |
| **Dylai** cyrff perthnasol hefyd ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â chyllid: | | |
| • costau cylchol cynigion dros gyfnod o dair blynedd o leiaf ac a yw'r cyllid cylchol angenrheidiol ar gael | Nid oes unrhyw gost benodol i'r cynnig y tu hwnt i'r cyllid fformiwla y mae'r ysgol yn ei dderbyn gan y cyngor. Mae ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion cymunedol ill dau yn cael eu hariannu drwy'r un fformiwla. | |
| • costau trafnidiaeth ychwanegol a achosir o ganlyniad i gynigion | Dim newid | Ni ragwelir unrhyw gostau trafnidiaeth ychwanegol i'r awdurdod. Fodd bynnag, byddai unrhyw ddewis gan rieni am barhau i ddarparu ar sail ffydd yn effeithio ar rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, o ystyried mai'r ysgol Eglwys yng |

| Ffactorau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y *status quo* | Newid statws<br>o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol |
|---|---|---|
| ***Dylai*** *cynigwyr ystyried y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a* ***dylent*** *geisio cyngor Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol mewn perthynas â'r effaith y gallai'r cynnig ei chael ar gostau cludiant cysylltiedig a'u fforddiadwyedd.* | | Nghymru cyfrwng Cymraeg agosaf yw yn Nhreletert, 23 milltir o Gilgerran. |
| • costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael | Ni ragwelir unrhyw gostau cyfalaf. | |
| • graddfa unrhyw arbedion net rhagamcanedig (gan ystyried refeniw ysgolion a chostau trafnidiaeth a chyfalaf)<br><br>*Mewn perthynas â chynigion lle mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw (er enghraifft, i gefnogi prosiect ailfodelu, adnewyddu neu adeiladu newydd sylweddol),* ***dylid*** *cyfrifo costau ac arbedion y cynigion dros oes yr adeilad perthnasol, a'u cymharu â'r costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â chynnal y* status quo. | Ni fydd unrhyw arbedion yn cael eu gwireddu o ganlyniad i'r cynnig.<br><br>Fodd bynnag, pe bai'r ysgol yn dod yn rhan o ffederasiwn maes o law, mae'n debygol y byddai sefyllfa ariannol yr ysgol yn gwella o ganlyniad, er enghraifft, i gostau arweinyddiaeth a rennir. | |
| • a fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffygion cyllidebol heb y cynigion | Ni fydd y cynnig i newid statws yr ysgol yn effeithio ar gyllid yr ysgol. Fodd bynnag, yn amodol ar unrhyw gynnig yn y dyfodol i'r ysgol ddod yn rhan o ffederasiwn yn y tymor hwy, mae newid statws yr ysgol yn debygol o helpu i'w | |

| Ffactorau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y *status quo* | Newid statws<br>o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol |
|---|---|---|
| | hatal rhag mynd i ddiffyg.  Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25, roedd gan yr ysgol warged o £123,961. Disgwylir i hyn ostwng i tua £71,000 ar ddiwedd 2025/26. | |
| • a fydd unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol | Os bydd unrhyw arbedion yn deillio o'r cynnig, byddant yn cael eu cadw i ddechrau yng nghyllideb ysgolion yr awdurdod lleol. | |
| • a yw elw gwerthiannau (derbyniadau cyfalaf) safleoedd diangen i fod ar gael i dalu costau'r cynnig neu gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hyrwyddo rheolaeth effeithiol o leoedd ysgol | Ni fyddai unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn cael eu cronni o unrhyw un o'r opsiynau dan ystyriaeth. | |
| **1.6 Ffactorau cyffredinol eraill** | | |
| **Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau cyffredinol canlynol: | | |
| • pa effaith fydd gan y cynigion ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd | Nid ystyrir y byddai unrhyw effaith ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd. | |
| • unrhyw faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb | Dim newid | Heblaw am 'grefydd neu gred', ystyrir na fydd unrhyw effaith ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill a gwmpesir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran yw'r unig ysgol ffydd o fewn clwstwr Preseli, ac ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos.  O safbwynt derbyniadau i ysgolion, nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod plant yn mynychu oherwydd statws ffydd yr ysgol, ond eu bod yn gwneud hynny gan |

| Ffactorau’r Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y *status quo* | Newid statws<br>o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol |
|---|---|---|
| | | mai hi yw’r ysgol leol. Byddai’n ymddangos bod y presenoldeb o 78.8% yn y dalgylch yn cadarnhau hyn.<br><br>Yn Sir Benfro, yr ysgol ffydd cyfrwng Cymraeg agosaf yw Ysgol Ger y Llan yn Nhreletert, tua 23 milltir i’r gorllewin, ac felly ni ellir ei hystyried yn ddewis arall addas. |
| • a yw’r ysgol neu’r ysgolion dan sylw yn ddarostyngedig i unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol a allai gael eu heffeithio gan y cynigion, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir | Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi sy’n berchen ar safle’r ysgol. Mae darn o dir sy’n eiddo i’r olaf ar brydles i Gyngor Cymuned Cilgerran. Bydd newid statws i ysgol gymunedol yn gofyn am negodi’r berchnogaeth rhwng y cyngor a’r esgobaeth. | |
| **1.7 Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion** | | |
| Wrth ystyried a yw cau ysgol yn briodol, dylid rhoi sylw arbennig i’r canlynol: | | |
| • a ellid ystyried sefydlu ysgolion aml-safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu’r rhesymau dros beidio â dilyn yr opsiwn hwn | Amherthnasol | Mae ‘cau’r ysgol yn ofyniad technegol er mwyn cyflawni’r categori ysgol ‘gymunedol’. Mae ffederaleiddio’r ysgol gydag ysgolion cyfagos yn y dyfodol yn rhoi cyfle gwell ar gyfer cymuned addysg gynaliadwy. |
| • a ellid ystyried dewisiadau eraill yn lle cau, fel clystyru, cydweithio neu ffederasiwn ag ysgol arall (gan ystyried y cwmpas ar gyfer defnyddio cysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgolion) neu’r rhesymau dros beidio â mynd ar drywydd y rhain fel dewis arall | Amherthnasol | Nid oes cynnig i ddileu darpariaeth, dim ond newid yr endid er mwyn rhoi cyfle i ffurfio ffederasiwn yn y dyfodol, pan fo’n briodol. |
| • a ellid archwilio’r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o’r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol | Amherthnasol | |

| **Ffactorau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion** | **Cynnal y *status quo*** | **Newid statws**<br>**o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol** |
|---|---|---|
| • effaith gyffredinol cau ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol) | Amherthnasol | Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y gymuned leol. Bydd y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd yn parhau i fod ar gael. |
| • sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig (e.e. sut y bydd disgyblion, yn enwedig unrhyw ddisgyblion llai breintiedig, yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl yr ysgol) | Nid oes yr un o'r opsiynau yn gofyn am ystyried unrhyw ysgol arall. Felly nid yw hyn yn berthnasol. | |
| **1.8 Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig** | | |
| Mae'r gofynion ychwanegol, wrth ystyried cau ysgol wledig, wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon, yn bennaf yn yr Atodiad 5 hwn (gan ystyried, er enghraifft, ansawdd a safonau mewn addysg ac effaith debygol trefniadau teithio gwahanol), ynghyd â rhesymau dros y cynnig / heriau allweddol (yn bennaf yn Adran 5 a thrwy gydol y ddogfen), a nodi ac ystyried dewisiadau amgen rhesymol (Adran 6 ac Atodiad 5). Mae'r asesiad effaith ar y gymuned yn Atodiad 2 hefyd yn rhan bwysig o'r ystyriaeth.<br>Bodlonwyd y gofynion cyn cychwyn ar ymarfer ymgynghori yng nghyfarfod y cyngor ar 8 Mai 2025. | | |
| **1.9 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin** | | |
| Amherthnasol | | |
| **1.10 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau chwech** | | |
| Amherthnasol | | |
| **1.11 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu sefydlu ysgol wirfoddol newydd** | | |
| Amherthnasol | | |
| **1.12 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion ar gyfer newid cyfrwng iaith** | | |
| Amherthnasol | | |
| **1.13 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion ar gyfer newid categori ysgol** | | |
| Mae prif effaith newid categori'r ysgol o fod yn ysgol wirfoddol a reolir i fod yn ysgol gymunedol yn ymwneud â'r effaith ar addysg ffydd. Byddai angen i rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid sy'n dymuno i'w plant barhau i fynychu ysgol yr Eglwys yng Nghymru fynegi dewis rhiant am ysgol arall. O ystyried nad oes unrhyw ysgolion gwirfoddol eraill a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru yn y clwstwr, byddai angen i rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid wneud eu trefniadau teithio eu hunain, gan y byddai hyn y tu allan i'r fframwaith cyfreithiol a pholisi sy'n ymwneud â chludiant i'r ysgol. | | |

| Ffactorau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y *status quo* | Newid statws<br>o ysgol wirfoddol a reolir i ysgol gymunedol |
|---|---|---|
| Y pellter i'r ysgol wirfoddol cyfrwng Cymraeg agosaf a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru yw 23 milltir (Treletert). | | |
| **1.14 Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth AAA** | | |
| Amherthnasol | | |

# Cau Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3-11 oed

**1) Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y cynnig**

| Cau Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran a'i sefydlu fel ysgol gymunedol 3-11 oed | **Ticiwch un** |
|---|---|
| Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall | |
| Rwy'n cefnogi'r cynnig | |
| Nid wyf yn cefnogi'r cynnig | |

**2) Rhowch unrhyw opsiynau amgen sydd gennych i gynnig y cyngor**

**3) Pa effeithiau ydych chi'n teimlo y byddai'r cynnig/cynigion yn eu cael ar y canlynol:**

- **cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
- **peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

**Ystyriwch a ellir newid y cynnig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol (neu effeithiau mwy cadarnhaol), ac i osgoi neu leihau effeithiau negyddol, ar y canlynol:**

**(i) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg**
**(ii) yr angen i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

**Os felly – sut? Os na – pam?**

**4) Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar y cynnig**

# Amdanoch chi:

**5) Dywedwch wrthym amdanoch chi** *(ticiwch bob un sy'n berthnasol)*

| | |
|---|---|
| Rhiant cyn ysgol | |
| Staff | |
| Rhiant / Gofalwr / Gwarcheidwad | |
| Llywodraethwr | |
| Preswylydd lleol | |
| Arall (nodwch isod) | |

**6) Pa ysgol neu ysgolion sydd o ddiddordeb pennaf i chi yn yr ymgynghoriad hwn?** *(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)*

| | |
|---|---|
| Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran | |
| Arall (nodwch isod) | |

________________________________________

**7) A ydych yn?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| 15 oed neu iau | |
| 16-24 oed | |
| 25-34 oed | |
| 35-44 oed | |
| 45-54 oed | |
| 55-64 oed | |
| 65-74 oed | |
| 75 oed neu hŷn | |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

**8) Â pha rywedd ydych chi'n uniaethu ag ef?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Gwryw | |
| Benyw | |
| Anneuaidd | |
| Mae'n well gen i ddefnyddio term arall | |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

**9) Sut y byddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Gwyn | |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | |
| Roma | |
| Grŵp ethnig cymysg/lluosog | |
| Asiaidd | |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd | |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | |
| Arall | |

**10) Beth yw eich crefydd neu gred?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Heb grefydd | |
| Cristnogol (pob enwad) | |
| Bwdhaidd | |
| Hindŵaidd | |
| Iddewig | |
| Mwslimaidd | |
| Sikhaidd | |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | |
| Arall | |

**11) A oes gennych unrhyw salwch neu gyflwr corfforol neu iechyd meddwl sydd wedi para 12 mis neu ragor, neu y disgwylir iddo bara 12 mis neu ragor?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Oes | |
| Nac oes | |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

**12) A ydyw'r cyflwr neu salwch sydd gennych yn amharu ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau pob dydd?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Ydy, cryn dipyn | |
| Ydy, ychydig | |
| Ddim o gwbl | |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

**13) A ydych chi'n gofalu am unrhyw un, neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i unrhyw un, sydd â salwch neu gyflwr corfforol neu iechyd meddwl hirdymor, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

**14) A ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**
*(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)*

| | |
|---|---|
| Deall Cymraeg llafar | |
| Siarad Cymraeg | |
| Darllen Cymraeg | |
| Ysgrifennu Cymraeg | |
| Dim un o'r uchod | |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

**15) Beth yw eich prif iaith?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Cymraeg | |
| Saesneg | |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | |
| Arall | |

**Ticiwch y blwch os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori.**

☐

**Gofynnir i chi ddarparu manylion eich cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post DIM OND os dymunwch gael copi o'r adroddiad ymgynghori. Mae'r wybodaeth arall y gofynnir i chi ei darparu at ddibenion monitro cydraddoldeb, ac fe'i defnyddir at ddibenion ystadegol yn unig.**

**Enw mewn llythrennau bras.................................... Ebost.……........................................**

**Cyfeiriad.......................................................................................................**

**.......................................................................................................................**

**Byddwn yn cynnwys unrhyw sylwadau y byddwch yn eu gwneud yn yr adroddiad ymgynghori, a fydd ar gael i'r cyhoedd, oni fyddwch yn gofyn i ni beidio.**

**Ticiwch y blwch hwn os nad ydych yn dymuno i'ch sylwadau fod ar gael i'r cyhoedd.**

☐

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

**Dychwelwch i Gyngor Sir Penfro drwy un o'r opsiynau cyswllt isod dim hwyrach na 5pm ar ddydd Gwener, 30 Ionawr 2026.**

| | |
|---|---|
| Llythyr at: | Steven Richards-Downes<br>Cyfarwyddwr Addysg<br>Neuadd y Sir<br>Hwlffordd<br>SA61 1TP |
| Cyfeiriad e-bost: | EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk |
| Ar-lein: | https://www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud/ymgynghoriadau |

**Diolch am eich amser**